# Cyflawni newid gyda'n gilydd

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Prif ganfyddiadau

Mae cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus gyda safonau'r Gymraeg yn gwella a mae sicrwydd uchel bod nifer o sefydliadau yn darparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel.

Mae'r gwaith angen parhau er mwyn gweld sefydliadau yn darparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel i ddefnyddwyr bob amser.


### Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur



Mae angen i Fyrddau Iechyd gynnal gwaith cynllunio dwys er mwyn cynyddu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg dros y 5 mlynedd nesaf.


Mae angen gwell cysondeb yn y ffordd y mae sefydliadau yn disgrifio'r angen am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi er mwyn denu gweithlu gydag ystod o sgiliau Cymraeg.

### Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt




Mae angen i bob sefydliad wneud mwy i hybu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

### Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg



Mae angen codi ymwybyddiaeth o fewn sefydliadau o ofynion y safonau llunio polisi, a'r hyn sy'n rhaid gwneud i gydymffurfio â nhw.

### Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd



Mae angen i sefydliadau herio eu hunain i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

### Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd



Mae angen i sefydliadau sicrhau bod eu strategaethau hybu nid yn unig yn cydymffurfio â gofynion sylfaenol y safonau, ond yn cyrraedd eu llawn botensial o ran eu cyfraniad at y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Comisiynydd yn cymryd rôl mwy rhagweithiol wrth roi cyngor ac arweiniad i sefydliadau ar fersiynau nesaf y strategaethau hynny.

### Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo



Mae sefydliadau angen sicrhau bod ffordd hwylus i bawb gyflwyno cwyn os ydyn nhw'n cael unrhyw drafferth defnyddio'r Gymraeg.

# Ystadegau diddorol

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**90%**
o dudalennau gwe ar draws yr holl sefydliadau ar gael yn Gymraeg

**89%**
o negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg

Mae gwell gan **33%** o siaradwyr rhugl ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus

Defnydd y Byrddau Iechyd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu o 47% yn 2021-22 i **64%** yn 2023-24 a'r defnydd o ffurflenni Cymraeg wedi cynyddu o 37% i **78%** yn yr un cyfnod

Mae gwell gan **46%** o siaradwyr rhugl ddefnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb gyda sefydliadau cyhoeddus bob tro neu gan amlaf

**86%**
o siaradwyr rhugl yn cytuno eu bod yn gallu deilo â sefydliadau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

**85%**
o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau yn ei gwneud yn glir eu bod ar gael




@comygymraeg
ComisiynyddGymraeg
@comygymraeg
Comisiynydd y Gymraeg/Welsh Language Commissioner

comisiynyddgymraeg.cymru